PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

DYDD MERCHER, 28 MAWRTH 2018

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Richard Tebboth, (Cadeirydd ac Aelod Annibynnol)<br><br>Y Cynghorwyr: Thomas, Richard Tebboth, Sandrey, Williams, James Downe a/ac Hugh Thomas<br><br>Cynghorydd Cymuned Thomas |

11 : CROESO I'R AELOD ANNIBYNNOL NEWYDD

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Thora Lewis yn Aelod Annibynnol y Pwyllgor ar ôl iddi gael ei phenodi gan y Cyngor ar 25 Ionawr 2018 am gyfnod o 4 blynedd.

Roedd aelodau wrth eu boddau o glywed y newyddion bod Hollie-Edwards Davies wedi rhoi genedigaeth ym mis Chwefror, a rhoddodd yr aelodau eu dymuniadau gorau i Hollie, ei phartner a'u merch fach.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Robson hefyd sy'n Is-gadeirydd ar Fws Caerdydd i'r cyfarfod.  Yn anffodus, roedd y Cynghorydd Stubbs, sy'n Gadeirydd ar Fws Caerdydd, wedi dioddef dau brofedigaeth yn ddiweddar ac felly nid oedd modd iddo ddod i'r cyfarfod.

12 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Cunnah a Lizz Rowe (Aelod Annibynnol)

13 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd y buddiannau canlynol:

| Cynghorydd | Eitem | Buddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Sandrey | Eitem 5 – Pasiau Teithio Bws Caerdydd | Buddiant personol fel Cyfarwyddwr Anweithredol o Fws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Williams | Eitem 6 – Swyddogaethau mewn perthynas â Chynghorau Cymuned | Buddiant personol fel Cynghorydd Cymuned |
| Y Cynghorydd Cymuned Stuart Thomas | Eitem 10 – Cwynion Cod Ymddygiad Aelodau – Chwarter 3, 2017/18 | Buddiant personol mewn perthynas â'r gŵyn. |

14 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 22 Tachwedd 2017 fel gwir gofnod yn amodol ar wall teipio ar dudalen 9.

15 : PASIAU TEITHIO BWS CAERDYDD

Cafodd y Pwyllgor adroddiad yn manylu ymhellach ar Gynghorwyr Caerdydd yn derbyn Pasiau Teithio Bws Caerdydd ar ôl cael eu henwebu gan y Cyngor fel Cyfarwyddwyr Anweithredol o Fws Caerdydd. Yn ogystal, gwahoddwyd y Pwyllgor i glywed gan Is-gadeirydd Bws Caerdydd, y Cynghorydd Robson ar y Polisi arfaethedig, ac wedi'i gynnwys yn yr adroddiad oedd cyngor y Swyddog Monitro i'r Pwyllgor i'w alluogi i ystyried a phennu unrhyw argymhellion sydd eu hangen.

Cyfeiriodd y Cadeirydd yr Aelodau at y camau gweithredu a gymerwyd ers y cyfarfod diwethaf sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y cyd-gyfarfod a gynhaliwyd â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Cyfarwyddwr Anweithredol, sef cynrychiolwyr y Cyngor ar Fwrdd Bws Caerdydd. Yn dilyn ymholiadau'r Pwyllgor ynglŷn â'r mater hwn, cytunwyd â chynrychiolwyr y Cyngor ar bolisi cwmni sy'n nodi telerau defnydd a pherchenogaeth Pàs Bws Caerdydd fel Cyfarwyddwr Anweithredol. Cadarnhaodd y Cynghorydd Robson, yn ei sylwadau i'r Pwyllgor ar ganllawiau ac egwyddorion y polisi i Aelodau Etholedig, fod Bwrdd Bws Caerdydd wedi cymeradwyo'r polisi yn ei gyfarfod ar 26 Mawrth 2018.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro yr oedd y polisi y cytunwyd arno a chofnodi derbyn y buddiant hwn ar gofrestr gyhoeddus yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor ar roddion a lletygarwch.

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r angen am ganllawiau clir o ran y polisi ar gyfer Aelodau Etholedig a'r angen am ddatgan unrhyw fuddiant yn rhodd. Roedd y Pwyllgor yn awyddus y dylai'r polisi hwn fod yn gyson â buddiannau teithio eraill a allai'r Aelodau Etholedig eu cael, megis parcio am ddim neu aelodaeth am ddim i'r cynllun nextbike. Cytunodd y Swyddog Monitro i wirio'r mater hwn.

Nodwyd bod y pàs bws yn werth tua £500, ond y byddai'r modd y gellir ei ddefnyddio gael ei gyfyngu gan y polisi ac ni fyddai'r pàs yn cael ei ddefnyddio fel prif dull teithio'r Aelodau. Ystyriwyd ei bod yn briodol gofyn i Aelodau amcangyfrif gwerth y buddiant a gafwyd, ond cytunwyd mai'r Aelod unigol dylai ddewis cofnodi ei ddefnydd o'r pàs a newid y gwerth petai'n dymuno gwneud hynny. Ni allai'r Cyngor mynnu bod Bwrdd Bws Caerdydd yn gofyn i Aelodau'r Bwrdd gofnodi eu defnydd ohono.

PENDERFYNWYD –

1. Croesawodd y Pwyllgor y gwaith a wnaed i egluro'r polisi â'r Aelodau Etholedig a Bwrdd Bws Caerdydd ac i gyflwyno polisi clir.

2. Derbyniodd y Pwyllgor gyngor y Swyddog Monitro ynglŷn â bod derbyn y pasiau'n cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor ar roddion a lletygarwch, a chytunwyd nad oes angen gweithredu ymhellach.

16 : SWYDDOGAETHAU MEWN PERTHYNAS Â CHYNGHORAU CYMUNED

Diweddarwyd y Pwyllgor ynglŷn â swyddogaethau statudol a chyffredinol y Pwyllgor mewn perthynas â Chynghorau Cymuned, sydd mwy neu lai yr un fath â'i gyfrifoldebau a'i ddyletswyddau ar gyfer y Cyngor Sir.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod Siarter y Cynghorau Cymuned yn cwympo o fewn maes gorchwyl y Cabinet ac nid y Pwyllgor hwn.  Cynhaliwyd cyfarfod cadarnhaol ar 12 Mawrth 2018 rhwng yr Arweinydd a chynrychiolwyr y Cyngor Cymuned i drafod Siarter y Cynghorau Cymuned. Dywedodd y Cynghorydd Cymuned fod y cyfarfod â'r Arweinydd wedi bod yn gam mawr ymlaen ac y byddai'r Clercod yn cyfarfod â'r Swyddog Monitro ym mis Mehefin, gan drefnu cyfarfodydd chwarterol o hynny ymlaen.

Roedd y Cadeirydd yn awyddus i wella cyfleoedd i ymgysylltu rhwng y Pwyllgor a'r Cynghorau Cymuned a dywedodd bod Briff i Aelodau wedi cael ei rannu â'r Cynghorau Cymuned bob chwe mis o fis Medi 2017 ymlaen ynghyd ag adroddiad diwethaf y Pwyllgor ynglŷn â Swyddogaethau'r Cyngor Cymuned â'r Pwyllgor diwethaf ac Adroddiad Blynyddol 2016/17 y Pwyllgor Safonau a Moeseg.

Roedd hi hefyd yn bwysig bod gan Aelodau'r Pwyllgor well dealltwriaeth o waith y Cynghorau Cymuned drwy fynychu cyfarfodydd a rhoi adborth i'r Pwyllgor gan ddefnyddio'r ffurflen safonol. Roedd manylion cyswllt a dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol ar gyfer pob Cyngor Cymuned wedi'u hatodi i'r adroddiad.  Argymhellwyd bod Aelodau'n rhoi gwybod i Glerc y Cyngor Cymuned perthnasol os oeddent yn bwriadu mynd i gyfarfod er cwrteisi a rhag ofn y bydd y cyfarfod yn newid am unrhyw reswm. Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â ph'un a oedd Clercod y Cynghorau Cymuned wedi gweld y ffurflen. Argymhellwyd hefyd y dylai Aelodau Pwyllgor osgoi Cyfarfodydd Blynyddol.

PENDERFYNWYD –

1. Nodwyd a chroesawyd yr eglurhad ynglŷn â swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cyngor i Gynghorau Cymuned;

2. Y dylai Aelodau Pwyllgor gysylltu o ran mynychu cyfarfodydd y Cynghorau Cymuned.

3. Y dylid dosbarthu ffurflen Adborth Goruchwylio Pwyllgorau i'r holl Glercod Cymuned er gwybodaeth iddynt.

17 : CANLLAWIAU AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL I AELODAU

Cytunodd y Pwyllgor, yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, i gynnal adolygiad o'r Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol i Aelodau i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn addas at y diben.

Nodwyd bod y CLILC wrthi'n paratoi diweddariad o'i chanllawiau o 2013 ac mae wedi llunio nodyn canllawiau drafft hefyd i Gynghorwyr ar 'Ddelio â Chamdriniaeth Ar-lein' sydd wedi'i ddosbarthu er gwybodaeth.

Trafododd y Pwyllgor argymhelliad blaenorol y Pwyllgor o ran y dylai Cynghorwyr gael dau gyfrif ar wahân i wahaniaethu rhwng gweithredu yn eu rhinwedd personol ac yn eu rôl fel Cynghorydd. Codwyd rhai pryderon o ran nad oedd y gwahaniaeth rhwng y ddwy rôl bob tro'n glir ac nad oedd defnyddio dau gyfrif ar wahân yn helpu Cynghorwyr i gofio eu bod wedi eu rhwymo i reolau Cod Ymddygiad penodol ar bob adeg (hyd yn oed wrth weithredu mewn rhinwedd personol). Roedd rhai Cynghorwyr hefyd yn teimlo ei bod hi'n bwysig ymddangos 'yn ddynol' i gysylltu â'r cyhoedd ar lefel bersonol.

PENDERFYNWYD –

1. Dylid newid yr argymhelliad yn y canllawiau o ran defnyddio dau gyfrif ar wahân i fod yn ddewisol.

2. Dylai Aelodau'r Pwyllgor roi unrhyw sylwadau pellach ynglŷn â'r Canllawiau ar Gyfryngau Cymdeithasol i Aelodau i'r Swyddog Cyfreithiol erbyn 16 Ebrill 2018.

3. Dylid dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd i gwblhau'r canllawiau, gan ystyried sylwadau aelodau'r Pwyllgor, a'u cyhoeddi i bob Aelod.

18 : ADRODDIADAU CHWYTHU'R CHWIBAN 2017

Mae gan y Pwyllgor, yn unol â'i gylch gorchwyl, gyfrifoldeb dros arolygu a monitro gweithdrefnau a Pholisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor ac ystyried materion moesegol sy'n codi.

Soniwyd wrth y Pwyllgor am dri adroddiad chwythu'r chwiban a ddaeth i law'r Swyddog Monitro yn unol â'r polisi yn 2017. Ystyriodd y Pwyllgor unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r broses a'r llywodraethiant neu'r materion moesegol sy'n codi o'r adroddiadau hyn. Nodwyd bod un o'r achosion hyn yn dal i fynd rhagddo.

Nododd y Pwyllgor waith y timau Uwch Reoli wrth godi ymwybyddiaeth o'r weithdrefn a'r wybodaeth sydd ar gael i gyflogeion.

Nododd y Pwyllgor hefyd bod adolygiad o'r Polisi Chwythu'r Chwiban wedi cael ei drefnu ac y byddai'n dod yn rhan o raglen y Cynllun Gwaith ar gyfer 2018/19.

PENDERFYNWYD –

1. Nodi cynnwys yr adroddiad;

2. Nodwyd y byddai'r Adolygiad o'r Polisi Chwythu'r Chwiban yn cael ei gynnwys yng nghyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol yn y Cynllun Gwaith 2018/19.

19 : BRIFFIO AELODAU

Ystyriodd y Pwyllgor y themâu a chynigiodd gynnwys y Briff i Aelodau i ddod a fyddai'n cael ei ddosbarthu i'r Cynghorau Cymuned.

Rhoddodd yr Aelod Annibynnol, sydd hefyd yn rhan o Bwyllgor Archwilio'r Is-gadeirydd, adborth o'r hyn a drafodwyd yn y Pwyllgor Archwilio diwethaf ynglŷn â'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i gefnogi a gorfodi'r egwyddorion a nodwyd yn Ymrwymiad Caerdydd ynghyd â Chynghorwyr. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod angen i bob Aelod ailddatgan ei ymrwymiad i Ymrwymiad Caerdydd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ac mae hyn yn cynnwys yr holl Gynghorwyr sy'n llofnodi Ymrwymiad Caerdydd.

Awgrymwyd y dylai cyflwyno hyn i Aelodau newydd y Pwyllgor fod yn un o'r eitemau cyntaf ar y Briff i Aelodau.

PENDERFYNWYD –

1. Cafodd themâu a chynnwys arfaethedig y Briff i Aelodau eu cymeradwyo a nodwyd sylwadau'r Pwyllgor;

2. Dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd i gwblhau'r briff i'w ddosbarthu i bob Cynghorydd a'r chwe Chyngor Cymuned.

## 20 : CWYNION COD YMDDYGIAD AELODAU – CHWARTER 3, 2017/18

Rhoddwyd y diweddaraf i'r Pwyllgor ynglŷn â chwynion a wnaed yn ystod Chwarter 3 o 1 Hydref 2017 i 31 Rhagfyr 2017 yn erbyn Aelodau Cyngor Caerdydd neu unrhyw Gyngor Cymuned Caerdydd, yn honni iddynt fynd yn groes i God Ymddygiad Aelodau. Nododd y Pwyllgor y gwnaed un gŵyn yn y cyfnod hwn.

Nodwyd bod cwynion ynglŷn ag ymddygiad Aelodau ers Etholiad Gyffredinol Mai 2017 wedi gostwng yn sylweddol ac ymdrinnir ag achosion bach ar yr adeg honno i osgoi gorfod uwchgyfeirio'r gŵyn ac i sicrhau y cynhelir ymddygiad priodol. Roedd hyn wedi digwydd â chymorth Arweinwyr, Chwipiaid a'r tri Chynghorydd newydd ar y Pwyllgor hwn sy'n hyrwyddo safonau moesegol; a chyflwyno Rhaglen Sefydlu Aelodau lwyddiannus.

PENDERFYNWYD - Y byddai cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 21 : CYNLLUN GWAITH

Derbyniodd y Pwyllgor y Cynllun Gwaith diwygiedig ar gyfer 2018 a gwahoddwyd Aelodau i wneud sylwadau ac argymhellion ar y Cynllun Gwaith.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod Cynhadledd Safonau Blynyddol Cymru wedi'i threfnu ar gyfer 14 Medi yn Aberystwyth. Byddai Awdurdodau Lleol yn cael eu gwahodd i anfon dau gynrychiolydd.

Nodwyd bod yr Arweinwyr a'r Chwipiaid wedi cael eu gwahodd i gyfarfod â'r Pwyllgor am 30 munud cyn dechrau'r Pwyllgor nesaf.

PENDERFYNWYD – Nodi'r Cynllun Gwaith 2018.

22 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF.

Dyddiad y cyfarfod nesaf bydd ddydd Mercher 13 Mehefin 2018 am 5.00pm

Daeth y cyfarfod I ben am 6.20 pm